**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL RHAGFYR 2019**
5 Rhagfyr 2019 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Peter Garlick, Huw Orwig, Gruff Williams, Emyr Williams, Gwyneth Thomas, Dafydd Iwan, Math Williams

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts, Erddyn Davies

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION MIS TACHWEDD 2019

| | |
|---|---|
| Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd 2019 | Cynnig: Peter Garlick<br>Eilio: Huw Orwig |

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Mae gwaith ail-wynebu ger Stâd y Bryn yn debygol o lithrio i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Disgwylir y bydd mân welliannau gan gynnwys gwella'r droedffordd yn cael ei wneud yn stâd Glan Beuno.

Bu'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad efo cwmni Watkin Jones er mwyn gweld a fedrent gyfrannu at welliannau yn Y Ganolfan – unai drwy gyfraniad ariannol neu drwy wneud gwaith adeiladu am ddim. Mae'r drafodaeth yn parhau.

Bydd Siân Gwenllian A.C. yn cynnal cymhorthfa yn Y Ganolfan ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2019.

Mae cwmni Jones Bros yn hapus i aelodau'r cyngor cymuned alw yn eu pencadlys yn yr hen waith brics er mwyn trafod gwaith ar y ffordd osgoi. Bydd y Cynghorydd Peter Garlick hefyd yn gofyn a fyddai'n bosibl i aelodau'r cyngor cymuned gael taith ar hyd y ffordd osgoi mewn bws mini er mwyn gweld y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn.

Nododd y Cynghorydd Dafydd Iwan nad oedd y daflen wybodaeth ddiwethaf am y ffordd osgoi yn cynnwys amserlen ar gyfer cau lôn Rhos-bach. Hoffai wybod pryd fyddan nhw'n ei chau tra'n darfgyfeirio traffig, ac am ba hyd.

Bydd y ddau gysgodfan fws Newydd yn cael eu gosod yng nghanol pentref Bontnewydd ddecrhau 2020.

## 4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Math Williams.

***Adroddiad trysorydd Pwyllgor y Ganolfan ar gyfer mis Tachwedd 2019***

**Sefyllfa ariannol:**

Arian yn y banc 4/12/19, £562.
Wedi talu am adnewyddu'r to fflat £2711.
Gwariant ar gynnal a chadw a gwelliannau yn ystod 2019 - £6,700.
Dwi ychydig yn nerfus gan nad ydym ar hyn o bryd yn cadw i'r arfer da o gadw gwerth tri mis o gostau sefydlog wrth gefn ond, tra erys incwm llogi'r Ganolfan yn sefydlog, fe fydd popeth yn saffach o fewn rhai misoedd gan bod yr incwm misol tipyn mwy na'r costau sefydlog.
Rydym wedi gwario £6,700 ar gynnal a chadw a mân welliannau yn ystod y flwyddyn ond, dwi am newid pwyslais am rai misoedd o wario i gynilo hyd nes bod rhai miloedd o bunnoedd wrth gefn. O ganlyniad, mae cwestiwn ar sut i ariannu, neu pryd i wneud, y gwaith nesaf sydd wedi eu clustnodi (gw. isod).

**Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau ym mis Tachwedd:**

1. Mae piben dŵr glaw ar ochr iard yr ysgol wedi ei ail-osod gyda gorchudd dur i warchod y biben (fel rhai'r ysgol).
2. Glanhauwyd y gwteri (roedd dŵr glaw yn gorlifo i lawr y waliau ac achosi lleithder ar y tu fewn mewn sawl man).
3. Gosodwyd blwch diogel goriadau tu allan i ddrysau tân y cyntedd

mawr. Mae rhif ffôn y gofalwr arno i alw i gael allwedd y drws tân os bydd angen.
4. Storfa'r neuadd: silffoedd cadarn wedi eu gosod at ddefnydd Clwb ar ôl Ysgol a Hwyl y Bont; ac mae paentio'r graffiti ar ei hanner.
5. Storfa'r gofalwr (i'w rannu gyda Meithrin): wedi ei baentio.
6. Ysbwriel ac ailgylchu: wedi derbyn mwy o biniau ailgylchu - ar gyfer papur a gwastraff bwyd.
7. Profion blynyddol y diffoddwyr tân wedi eu cwblhau.
8. Gwynt oer yn chwythu o dan ddrysau - deunydd atal drafftiau wedi eu gosod ar sawl drws.

**Ar y gweill neu angen trafod...**

- Storfa'r neuadd: angen gorffen paentio'r graffiti
- Storfa'r Gofalwr: aros i saer osod silffoedd
- Drws cwt mesurydd nwy - wedi pydru; heb ei gloi - aros i saer osod drws newydd
- Golau allanol wrth y drws mynediad (drws coch, cyntedd bach) - newid lleoliad i oleuo'r drws; a newid i oleuo ar symudiad - aros pris gan drydanwr
- Drws toiled genod yn clepian yn y gwynt
- Gostwng uchder un pot pisio i hwylusi defnydd gan blant 6+ - barn dau blymar nad yw'r bosib ac yn awgrymu plinth neu osod un cafn dur distaen
- Yr hen ystafell snwcer - aros i'r pensaer baratoi manylion gwaith i adeiladwyr gael prisio'r gwaith
- Drws mynediad (cyntedd bach) - mae ffram y drws yn rhydd o'r wal ar ochr y colfachau - bydd angen tynnu'r drws a'r ffram allanol i gael gweld y broblem
- Paentio pren tu-allan (sy'n dal y gwteri); barn paentiwr (Mark):

- eu newid am rai plastig - tua £4000-5000 (amcangyfrif cyflym, nid dyfynbris ffurfiol)
- gosod croen plastic tros y pren i'w gwarchod rhag pydru mwy - llai na hynny
- paentio'r pren ac adnewyddu'r darnau pwdr - mwy na £5000

    - Nid yw Mark yn credu bod pwrpas eu paentio o ystyried y gost nawr ac yn y dyfodol (gan mai 10 mlynedd yw bywyd gweithredol paent ar bren yn llygad y tywydd yn yr ardal yma). Ac ni fydd ganddo amser i wneud y gwaith yn ystod 2020.

    - Bydd hefyd angen gwteri newydd wrth wneud pa bynnag waith y dewiswn - mae 'rhai presennol yn rhy fregus i'w tynnu a'u hail-osod (a dyna pam ma'n siwr ein bod wedi gorfod newid nifer o'r bracedi yn y 18 mis diwethaf wrth eu hatgywiro lle'n gollwng).

- Paentio plastar tu-fas - y cyntedd bach, lle roedd yr hen ffenestri; a'r trionglau plastar ar y piniwn - wedi derbyn dyfynbris o £830 am ochr y ffordd fawr a £280 am ochr yr ysgol.
- Paentio tu-fewn - neuadd, cyntedd mawr - Pete

Mae'r Clwb Ieuenctid wedi dangos parodrwydd i rentu'r Ganolfan ar nos Iau, ac mae cynrychiolydd y Clwb Ieuenctid yn trafod hyn yn uinion gyrchol efo'r gofalwr.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Prosiect Cyngor Cymuned ar gyfer 2020

Atgoffodd y Cynghorydd Geraint Strello am y drafodaeth a fu yng nghyfarfod mis Tachwedd, sef i ystyried cynnig grantiau o hyd at £500 i grwpiau lleol weithredu ar sail thema amgylcheddol tymor hir, e.e. plannu coed, datblygu llain o dir.

Cytunwyd y bydd angen sefydlu panel cyn bo hir gyda chynrychiolydd/arbenigwr allanol.

Bydd y Cynghorydd Geraint Strello yn llunio amodau a thelerau drafft efo'r gobaith o lawnsio'r cynllun ddecrhau 2020. Cytunwyd y byddai'n syniad da cysylltu efo'r Clwb Ieuenctid, y rhai sy'n llogi'r Ganolfan, Age Cymru a'r ysgol am syniadau.

Unwaith y bydd Age Cymru wedi cwblhau eu maes parcio newydd, yna mae'n debyg y bydd gweddill y cae ar gael fel rhandir.

### 5.2 Gwefan Cyngor Cymuned

Cafwyd pedwar pris, gan bedwar darparwr, gyda'r prisiau yn amrywio cryn dipyn. Cytunwyd nad oedd angen gwefan rhy gymhleth.

Cynigiodd y Cynghorydd Gruff Williams i lunio gwefan syml, a ddenfyddio'r new Bontnewydd.cymru os yw ar gael.

Gobeithir y bydd fersiwn gyntaf y wefan ar gael ar gyfer trafodaeth bellach yng nghyfarfod Ionawr.

**5.3 Cau Lonydd Lleol**

Ysgrifennodd y Clerc at Jones Bros er mwyn nodi fod rhai o drigolion Llanfaglan yn cael cryn anhawster i deithio i Fontnewydd, oherwydd fod y lôn wedi cau. Ymateb Jones Bros oedd nad oedd yna iawndal ar gael, ond eu bod yn gwneud pob dim i geisio lleihau'r anghyfleustra i bobl lleol.

Cafwyd ateb hefyd gan Sian Gwenllian A.C., sydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru, Ken Skates, yn gofyn os oes posibl cael iawndal i'r rheini sydd yn dioddef anghyfleustra.
.

**5.4 Goryrru Llanfaglan**

Ysgrifennodd y Clerc at Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, yn dilyn ei ymweliad diweddar â'r ward, i fynegi pryder am oryrru a chynnydd yn y traffig yng nghyffiniau Llanfaglan oherwydd gwaith y ffordd osgoi.

Ymateb Cyngor Gwynedd oedd eu bod wedi rhoi ystyriaeth fanwl i oryrru yn Llanfaglan a'r cyffiniau. Cynhaliwyd nifer o asesiadau traffig yn dilyn dechrau gwaith y ffordd osgoi, ond ychydig iawn oedd unrhyw gynnydd yn nifer y cerbydau, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth amlwg fod mwy o geir yn goryrru chwaith.

Mae Pennaeth adran Priffyrdd a Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd, Steffan Jones, a'r Cynghorydd Peter Garlick yn gobeithio cyfarfod yn fuan er mwyn trafod y sefyllfa ymhellach.

**5.5 Meysydd Chwarae**

Gofynnwyd i Amanda Murray, Cyngor Gwynedd, fynychu cyfarfod Rhagfyr, ond yn anffodus doedd hi ddim ar gael.

Disgwylir manylion am gostau a gwybodaeth bellach am y meysydd chwarae ym Montnewydd erbyn dechrau'r flwyddyn newydd.

Bydd Pennaeth newydd Ysgol Gynradd Bontnewydd yn mynychu cyfarfod mis Chwefror ac fe gytunwyd y byddai'n syniad da rhoi gwybod iddo am y trafodaethau parthed meysydd chwarae Bontnewydd ac Ysgol Bontnewydd ymlaen llaw.

## 6. MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Tachwedd 2019

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £279.00
**Cyfanswm Net** £232.20

**6.2 Anfoneb Rhif 1928 Wyn Williams**, glanhau cysgodfanau Gorffennaf 2019 - Tachwedd 2019 - £225.00

### 6.3 Cytuno ar Braesept 2020/2021

Bu trafodaeth gychwynnol ar y papur a baratowyd gan y Clerc, oedd yn monitro'r gyllideb ac yn darparu manylion gwariant er mwyn medru penderfynu ar wariant 2020/21 Cytunwyd i ohirio trafodaeth bellach ar y mater tan gyfarfod mis Chwefror 2020.

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio C19/1036/19/LL – Tir ger Cae'r Efail, Llanfaglan, LL54 5RE. Codi adeilad i'w ddefnyddio fel storfa goed ynghyd a gosod carafan statig.

Gan ei bod hi'n wybyddus fod yna wrthwynebiad lleol, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi hyn, ac yn gofyn i'r mater ddod gerbron y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad.

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Lliniaru Llifogydd

Mynychodd y Cynghorydd Geraint Strello gyfarfod lliniaru llifogydd dalgylch afon Gwyrfai.

Edrychwyd ar y posibilrwydd o arafu llif afon Beuno, oherwydd ei bod yn afon fechan, a haws fyddai gwneud hyn nag mewn afon fwy.

Mae trafodaethau ar y gweill rhwng Cyngor Gwynedd a thirfeddianwyr ar opsiynau posibl.  Maent hefyd yn gweithio ar fodel cyfrifiadurol ers mis Ionawr er mwyn dangos effeithiau gwahanol bosibiliadau, e.e. symud gro.

Mae hefyd angen gwneud arolwg o'r wal i weld os ydyw yn ddigon uchel a bod ei seiliau yn ddigon cryf.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i gynrychiolydd fynychu cyfarfod y cyngor cymuned ym mis Mawrth 2020 er mwyn rhoi diweddariad.

**9.2  Coeden Nadolig Bontnewydd**

Cyfrannodd Hwyl y Bont £300 tuag at goeden Nadolig Bontnewydd. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Cymuned fod yn gyfrifol yn y dyfodol, e.e. yn lle rhoi cyfraniad blynyddol i Hwyl y Bont, gwario'r arian ar y goeden Nadolig a'i haddurno.

Mae Adra, (yr hen Gartrefi Cymunedol Gwynedd), yn gyfrifol am yswirio'r goeden.

Cytunwyd y byddai'n syniad da gwahodd cynrychiolydd o Adra i gyfarfod mis Mawrth 2020 er mwyn gweld sut y gallasant gydweithio'n gyffredinol efo cynghorau cymuned gan eu bod yn bwriadu codi tai cymdeithasol eu hunain yn y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Chwefror  2019 am 7 yr hwyr yn Y Ganolfan, Bontnewydd**